***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 388

# Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2024

## RHAN 7

Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau – diogelu

**Dehongli Rhan 7**

**29.** Yn y Rhan hon—

mae i "esgeulustod" ("*neglect*") yr un ystyr ag yn adran 197(1) o Ddeddf 2014;

mae "triniaeth amhriodol" ("*improper treatment*") yn cynnwys gwahaniaethu neu ataliaeth anghyfreithlon, gan gynnwys amddifadu o ryddid nad yw wedi ei awdurdodi yn unol â thelerau Deddf Galluedd Meddyliol 2005(**1**).

(**1**) 2005 p. 9.